Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain o Ebrill 2026

Presennol oedd Menai Hughes, Einion Edwards, Prys Ellis, Guto Jones, Ffuon Williams, Llio Morris(cadeirydd) a Cyngh Gwennol Ellis.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Kay Murphy, Maria Roberts a Dyfan Jones.

Darllenlwyd y cofnodion blalenorol ac fe'u harwyddwyd yn gywir.

Datgan diddordeb ir Agenda  Ffuon Williams yn datgan eiu diddordeb ir cais am arian or Elusen Addysgol Cerrig y Drudion.

Gohebiaeth

[1] Arwyddwyd y cofrestr Diddordebau Aelodau y cynghorwyr ac treuliadau cynghorwyr.

[1.1] Eisteddfod Llangollen – gofyn am gyfranaid pasiwyd i beidio cyfranu.

[1.2] Llythyr Lleucu Owain – llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Bro ir newidiadau i'r polisi trafniadiaeth ysgol clerc i ysgrifennu at yr adran trafnidiaeth ysgol Sir Conwy yn cefnogi cais llythyr Lleucu ac yn gyffredinol hefyd.

[1.3] Casgliad y diweddar Brenda May Jones. – cafwyd rhodd y casgliad er cof amdani iw wario yn y fynwent £300.00. Clerc i yrru llythyr o ddiolch ir teulu.

[1.4] Cyfrifon ir awdit am y flwyddyn 2025/26. Pasiwyd eu bod yn gywir ac iw pasio ymlaen ir archwilwyr mewnol sef Emyr Mortimer.

[1.5] Cais Balchder Bro – Mae cais wedi cael ei gyflwynno gan Marc Roberts tuag at gwelliannau ir Parc chwarae ar toiledau.

[1.6] Cyflog y Clerc - pasiwyd iw ddalu £2,550.60.

[1.7] Sefydliad Addysgol Cerrig y Drudion – cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i roi £200.00.

[1.8] Cyngor Conwy – treth busnes dim tal

[1.9] Cyngor Conwy - taliad precet 1af £5,000.00.

[2] Adroddiad Cyngh Gwennol Ellis. – dywedodd bod y llwybr troed coch wrth Bwyd a Ni yn ei le ac yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr a phlant sydd yn cerdded ir ysgol. Hefyd mae gwaith tarmacio llwybr wrth yr ysgol wedi cael ei wneud. Mae addewid am gael arwyddion cyflymder wrth ddod tuag at yr ysgol sef 60, 40, 20 fel rhan o ymgyrch i arafu y traffic., mae cais hefyd wedi ei wneud ir Ganolfan am gael tori y gwrych yr ysgol pan fydd yr amser priodol i wneud hynny. Dywedodd bydd gwaith adnewyddu tu allan ir Hwb yn cychwyn fis Mai.

[2.1] Awdit Cymru - cafwyd anfoneb am y gwaith archwilio yn 2019/20 oedd heb ei dalu pasiwyd iw dalu. £239.65.

[2.2] Dwr Cymru - llythyr yn nodi bod gwaith uwchraddio yn nghwaith trin dwr gwastraff yn digwydd yn Ngherrig y Drudion yn mis Mehefin.

[2.3] Cyngor Conwy – llythyr yn gofyn am gyfraniad tuag at y cynllun chwarae yr haf yn Ngherrig y Drudion – gofynwyd y cwestiwn a oedd yr arian a glustnodwyd wedi cael ei wario i gyd? Clerc i holi Tim Ballam am hyn yn gyntaf cyn cytuno i gyfannu.

Dyddiad y cyfardod nesaf iw drefnnu Mis Mehefin.